



Swyddog Ymgysylltu a Hyfforddi Cymru

- Yn adrodd i:** Pennaeth y Rhaglen Clinigau
- Cyflog:** £22,035 y flwyddyn (£27,544 cyfwerth ag amser llawn)
- Oriau:** Rhan amser, 28 awr yr wythnos
- Contract:** Parhaol
- Gwyliau:** 25 diwrnod o wyliau blynyddol (sy'n gyfwerth ag amser llawn) ynghyd â gwyliau banc a chau dros y Nadolig, gan gynyddu â gwasanaeth
- Buddion:** Cynllun pensiwn cyfrannol 5% a chynllun arian yn ôl gofal iechyd preifat
- Lleoliad:** Yn y cartref, ond wedi'i leoli yng Nghymru

Ynglŷn â LawWorks

Yr hyn â wnawn

LawWorks yw enw gweithredu'r Solicitors Pro Bono Group. Elusen ydym ni, a'n nod yw galluogi mynediad at gyfiawnder trwy gefnogi a datblygu cyfraniad gwaith cyfreithiol am ddim.

Rydym yn annog, yn hwyluso ac yn dathlu gwaith cyfreithiol am ddim ar draws yr alwedigaeth cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr.

Gyda phwy rydyn ni'n gweithio

Rydym yn gweithio'n bennaf â chyfreithwyr (cwmnïau a thimau mewnol), a hefyd ag ysgolion y gyfraith a myfyrwyr y gyfraith, a gwirfoddolwyr a sefydliadau eraill sy'n gyfreithiol a heb fod yn gyfreithiol.

Mae oddeutu 150 o sefydliadau yn aelodau LawWorks, gan gynnwys rhai o gwmnïau mwyaf Dinas Llundain a chwmnïau rhyngwladol sydd â swyddfa yn Llundain, cwmnïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, timau cyfreithiol mewnol, ysgolion y gyfraith ac elusennau.

Pwy ydym ni

Sefydliad cymharol fach yw LawWorks â bron i 25 aelod o staff. Fel arfer mae hanner ohonynt yn gweithio mewn swyddfa yng nghanol Llundain, â chydweithwyr eraill yng Nghaerdydd, De-orllewin, Gogledd-ddwyrain, Dwyrain a Chanolbarth Lloegr.

Rydym yn elusen gymhleth a phrysur (ar gyfer ein maint), â thîm cyfeillgar, ethos cadarnhaol ac ymrwymiad i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod LawWorks yn sefydliad cryf ac effeithlon, ac yn lle gwych i weithio.

Ein prosiectau

Mae nifer o linyddau allweddol i'n gwaith i gefnogi a hwyluso gwaith cyfreithiol am ddim:

- Rydym yn cefnogi rhwydwaith cynyddol o dros 300 clinig cyngor annibynnol gwaith cyfreithiol am ddim lleol ledled Cymru a Lloegr. Rydym yn gweithio â chyfreithwyr, asiantaethau cynghori, elusennau a phobl eraill i sefydlu neu ddatblygu clinigau newydd, ac yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth barhaus, hyfforddiant ac adnoddau i wirfoddolwyr a chydlynwyr clinigau;
- Mae ein Rhaglen Nid-Er-Elw yn hwyluso darparu cyngor cyfreithiol am ddim i elusennau bach a sefydliadau nid-er-elw, y mae cyfreithwyr gwirfoddol o blith aelodau LawWorks (gweler isod) yn eu cefnogi;
- Mae ein Rhaglen Arbenigo Eilaidd yn cefnogi datblygiad gwaith cyfreithiol am ddim mwy 'manwl' mewn meysydd cyfraith lles cymdeithasol. Ar hyn o bryd mae hyn yn cynnwys cynrychiolaeth budd-daliadau lles (cefnogi cyfreithwyr gwirfoddol i gynrychioli unigolion mewn apeliadau budd-dal nawdd cymdeithasol (haen 1af), prosiect cyflogau heb eu talu a 'Lleisiau i Deuluoedd/Voices for Families', â'r elusen Together for Short Lives, yn cefnogi rhieni a gofalwyr plant sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd;
- Rydym yn cefnogi Pro Bono Connect: prosiect sy'n hwyluso bargyfreithwyr a chyfreithwyr sy'n gweithio â'i gilydd ar achosion gwaith cyfreithiol am ddim;
- Rydym wedi lansio offer a llwyfannau digidol newydd ar-lein, gan gynnwys clinig ar-lein o'r enw 'Free Legal Answers' a'r Pro Bono Portal UK (â Justice Connect, elusen mynediad at gyfiawnder yn Awstralia).

Mae LawWorks yn falch i gael dyfarniad arian gan y Loteri Genedlaethol trwy'r Gronfa Pobl a Lleoedd, i adeiladu ymhellach ar ein gwaith yng Nghymru.

Y rôl

Mae ein profiad yng Nghymru, lle gwnaethom sefydlu LawWorks Cymru yn 2013, wedi dangos i ni pa mor werthfawr y mae cael staff yn lleol i gefnogi mentrau gwaith cyfreithiol am ddim, datblygu cyfleoedd gwaith cyfreithiol am ddim newydd a chynyddu'r ymgysylltu â'r proffesiwn cyfreithiol lleol.

Bydd y rôl hon yn canolbwyntio ar ehangu ymgysylltiad rhanddeiliaid er mwyn cynyddu nifer y clinigau cyngor cyfreithiol annibynnol yng Nghymru a hyrwyddo cyfranogiad gwaith cyfreithiol am ddim gan y proffesiwn cyfreithiol. Byddwch yn gweithio i nodi rhanddeiliaid newydd ac ymgysylltu â hwy, yn datblygu sesiynau hyfforddi ac yn chefnogi monitro effaith. Bydd y rôl hon yn gweithio'n agos â Swyddog Cymorth a Datblygu'r Clinigau (Cymru), sy'n gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf i gael arweiniad a chymorth i glinigau yng Nghymru.

Prif flaenoriaethau'r rôl hon fydd:

- Cynyddu nifer yr unigolion yng Nghymru sy'n cael cyngor cyfreithiol am ddim mewn clinigau Rhwydwaith Clinigau LawWorks trwy hwyluso'r broses o ddatblygu clinigau newydd trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid;

- Tyfu cysylltiadau â chwmnïau cyfreithiol, cyfreithwyr unigol a sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru;
- Cefnogi gwerthuso effaith y Rhaglen Glinigau yng Nghymru, yn ogystal â chefnogi clinigau ar Rwydwaith Clinigau LawWorks, i fonitro effaith eu gwasanaeth ar gleientiaid, gan ganolbwyntio ar les cleientiaid;
- Nodi anghenion hyfforddi clinigau yng Nghymru a gwirfoddolwyr o gwmnïau cyfreithiol sy'n cymryd rhan, gan weithio â chydweithwyr i drefnu hyfforddiant rhanbarthol a/neu hyfforddiant o bell, a digwyddiadau eraill i wasanaethu'r anghenion hynny.

Rydym yn chwilio am rwydweithiwr hyderus sy'n gallu nodi cyfleoedd a sefydlu partneriaethau newydd. Caiff holl waith LawWorks ei ddarparu trwy bartneriaethau, felly mae'n hanfodol bod yr ymgeisydd yn ddymunol, yn gydweithredol ac yn cyfathrebu'n effeithiol.

Bydd cefndir yn sector y gyfraith neu gyngor o fantais, ond ni fydd yn hanfodol - bydd hyfforddiant a chefnogaeth yn cael ei ddarparu i rywun o sector arall sy'n frwd dros waith cyfreithiol am ddim a mynediad at gyfiawnder ac sy'n fodlon dysgu. Bydd profiad o reoli nifer o brosiectau a'u goruchwylio hyd eu cwblhau hefyd o fantais.

Mae'r rôl yn cynnig amrywiaeth, ymreolaeth, y cyfle i helpu i ddatblygu mentrau newydd o syniad i lansio, a chyfle i gefnogi eich cymuned leol.

Bydd y swydd yn golygu gweithio gartref yn bennaf, â theithio'n rheolaidd ledled Cymru ac i Gaerdydd o leiaf unwaith y mis, gan deithio'n achlysurol i swyddfa LawWorks yng nghanol Llundain.

Dyletswyddau a meysydd tasg allweddol

- Datblygu perthnasau â chwmnïau cyfreithiol, timau cyfreithiol a rhanddeiliaid perthnasol eraill i nodi eu hanghenion mewn perthynas â gwaith cyfreithiol am ddim.
- Hwyluso rhannu rhwng rhanddeiliaid yn y rhanbarth i nodi ymarfer gorau, a chyfleoedd lleol ar gyfer gweithio ar y cyd.
- Cefnogi gwaith datblygu clinigau LawWorks yn y rhanbarth, gan fodloni targedau blynyddol ar gyfer lansio clinigau, newydd gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu clinigau mewn lleoliadau gofal iechyd.
- Nodi anghenion hyfforddi lleol a threfnu hyfforddiant ag arbenigwyr allanol mewn meysydd cyfraith lles cymdeithasol neu sgiliau meddal.
- Gweithio â thîm ehangach LawWorks i gefnogi cynnal digwyddiadau ymgysylltu lleol.
- Cefnogi casglu data, gwerthuso ac asesu effaith at ddibenion mewnol a rhoddwyr, ac i lywio polisi.
- Cyfrannu at ddatblygiad cyffredinol LawWorks, a'i redeg, gan ymgymryd ag unrhyw dasgau eraill a allai fod yn ofynnol o bryd i'w gilydd.

Manyleb yr Unigolyn

	Hanfodol	Dymunol
1. Profiad sylweddol o weithio ar brosiectau cymaradwy neu debyg (neu allu i gyflawni y gellir ei arddangos) (e.e., yn cynnwys rhwydweithio, datblygu prosiectau a chefnogaeth)	✓	
2. Hanes ardderchog o gefnogi rhanddeiliaid, meithrin perthnasau, a gweithio ar y cyd	✓	
3. Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan gynnwys rhoi cyflwyniadau	✓	
4. Sgiliau rhyngpersonol rhagorol ac yn hyderus wrth rwydweithio â phobl o wahanol lefelau a chefnidiroedd	✓	
5. Profiad o ddyfeisio cynlluniau prosiect a'u dilyn, a sicrhau bod targedau personol a sefydliadol yn cael eu bodloni neu eu rhagori	✓	
6. Profiad o weithio'n effeithiol mewn partneriaeth neu dîm i gyflawni amcanion a rennir	✓	
7. Mae'r gallu i ymgymryd â theithio rheolaidd ar draws y rhanbarth yn hanfodol. Gall hyn olygu dechrau'n gynnar, gorffen yn hwyr ac ambell arhosiad dros nos	✓	
8. Yn hyderus yn eich gallu i weithio'n annibynnol â goruchwyliaeth gyfyngedig, a datblygu strategaethau i oresgyn heriau gweithio o bell i ffwrdd o weddill eich tîm	✓	
9. Ymrwymiad i werthoedd ac ethos LawWorks a'r sector cyngor nid-er-elw	✓	
10. Ymrwymiad at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant	✓	
11. Gwybodaeth dda am y sector cyngor cyfreithiol, gan gynnwys sut mae ysgolion y gyfraith a'r proffesiwn cyfreithiol yn cymryd rhan mewn CSR a gwirfoddoli proffesiynol		✓
12. Dealltwriaeth gadarn o gyfathrebu ar y we a sgiliau TG cryf		✓
13. Byddai profiad blaenorol o weithio mewn sefydliad aelodaeth/rhwydwaith, a/neu gydlynu hyfforddiant a digwyddiadau yn ddymunol iawn		✓
14. Profiad o fonitro effaith prosiect a'i gwerthuso		✓

Sut i wneud cais

Cyflwynwch CV a llythyr eglurhaol, sy'n amlinellu pam mae gennych ddiddordeb y y rôl a sut rydych yn addas amdani, gan gynnwys sut mae eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch profiad yn bodloni'r fanyleb yr unigolyn uchod.

(Cyfeiriwch at gymaint o fanyleb yr unigolyn ag y gallwch. Rydym yn cydnabod y gallai ymgeiswyr fod yn llawer cryfach ar rai o ofynion y rôl nag eraill).

Gwnewch gais erbyn 11:59pm ddydd Sul 27^{ain} Tachwedd. Ni fydd ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn.

Cyflwynwch eich cais i applications@lawworks.org.uk gan nodi '**LawWorks Cymru**' yn y llinell destun.

Cynhelir cyfweiliadau ar gyfer y rheiny sy'n cyrraedd y rhestr fer yn yr wythnos yn cychwyn **5^{ed} Rhagfyr**.

I gael sgwrs anffurfiol am y rôl (yn gyfrinachol) cysylltwch â Caroline Bullen, Pennaeth Rhaglen y Clinigau caroline.bullen@lawworks.org.uk

Byddem yn ddiolchgar petaech hefyd yn gallu llenwi ffurflen monitro cyfleoedd cyfartal - caiff hon ei gwahanu o'ch cais ar ôl ei derbyn.

Mae LawWorks yn gyflogwr cyfle cyfartal. Rydym yn croesawu ceisiadau beth bynnag yw'r hil, crefydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu oedran.

Tachwedd 2022